DATGANIAD I'R WASG

'SICRHAU SYSTEM CYFIAWNDER GWEINYDDOL GYDLYNOL, HYGYRCH A THEG YNG NGHYMRU'

PWYLLGOR CYMREIG Y CYNGOR CYFIAWNDER GWEINYDDOL A THRIBIWNLYSOEDD YN CYHOEDDI'R ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNTAF

Rhaid i dribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru fod yn annibynnol ar y llywodraeth a'r asiantaethau eraill os ydynt am fod yn wirioneddol effeithiol, yn ôl Pwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd (AJTC) heddiw, wrth gyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol cyntaf ers ei sefydlu ym mis Mehefin 2008.

Nod yr adroddiad yw sicrhau arweinyddiaeth gref a hyddysg gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i sefydlu canolbwynt unigol i gyfiawnder gweinyddol yng Nghymru, ac mae'n dadlau y byddai dysgu gwersi o apeliadau, cwynion ac achosion o wneud iawn yn ei gwneud yn bosibl i benderfyniadau cychwynnol gael eu gwneud yn well gan felly leihau'r angen am apeliadau.

Dywedodd yr Athro Syr Adrian Webb, Cadeirydd Pwyllgor Cymreig yr AJTC:

> "Sefydlwyd Pwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd ym mis Mehefin 2008 i sicrhau system cyfiawnder gweinyddol gydlynol, hygyrch a theg yng Nghymru. Yn ein blwyddyn gyntaf rydym wedi gweithio'n galed i ddeall cyfiawnder gweinyddol yng Nghymru, cyfundrefn sy'n gymhleth oherwydd cydblethu systemau datganoledig a systemau heb eu datganoli.
>
> "Pan fydd aelodau o'r cyhoedd yn teimlo bod ganddynt reswm i apelio yn erbyn penderfyniad, mae ganddynt yr hawl i ddisgwyl gwasanaeth sy'n wirioneddol annibynnol ar wneuthurwyr polisïau a phenderfyniadau'r llywodraeth. Nid felly y mae bob tro. Ariennir a gweinyddir gormod o dribiwnlysoedd gan yr adrannau hynny y mae eu penderfyniadau yn cael eu herio. Rhaid mynd i'r afael â hyn.
>
> "Mae angen canolbwyntio ar wella'r broses gwneud penderfyniadau gychwynnol drwy'r llywodraeth, cynghorau lleol ac asiantaethau sy'n ymdrin ag aelodau o'r cyhoedd drwy ddysgu'r gwersi sy'n deillio o achosion o wneud iawn. “Mae "Gwneud Pethau'n Iawn y Tro Cyntaf" yn golygu canlyniad gwell i'r unigolyn, llai o waith i'r systemau apeliadau a chostau is i'r llywodraeth; mae'n elfen amlwg o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar y dinesydd a dylid ei blaenoriaethu.
>
> Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ar yr holl faterion hyn. Cychwynnwyd ar y broses o adolygu tribiwnlysoedd yng Nghymru, a byddwn yn gwneud argymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar ddiwygiadau posibl yn 2009/10.”

- Dyma Adroddiad Blynyddol cyntaf Pwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, a sefydlwyd o dan *Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007*.

- Daeth y Pwyllgor i fodolaeth ar 1 Mehefin 2008 ac mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'n ffurfiol y cyfnod o'r dyddiad hwnnw hyd at 31 Mawrth 2009.

- Mae'r AJTC yn gorff cyhoeddus anadrannol ymgynghorol annibynnol a noddir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Fe'i crëwyd gan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, gan olynu'r Cyngor ar Dribiwnlysoedd. Ei ddiben yw adolygu'r system cyfiawnder gweinyddol gyfan a helpu i sicrhau bod cyfiawnder gweinyddol a thribiwnlysoedd yn fwy hygyrch, teg ac effeithiol drwy chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddatblygu egwyddorion cyson ac arfer da; hyrwyddo dealltwriaeth, dysgu a gwelliant parhaus; a sicrhau bod anghenion defnyddwyr yn ganolog. Ceir rhagor o wybodaeth am yr AJTC ar ei wefan: http://www.ajtc.gov.uk

Nodir swyddogaethau allweddol yr AJTC a'i Bwyllgorau yn y Ddeddf ac maent yn cynnwys:

● adolygu'r system cyfiawnder gweinyddol gyffredinol
● ystyried ffyrdd o wneud y system yn hygyrch, yn deg ac yn effeithlon
● cynghori ar ddatblygiad y system
● gwneud cynigion ar gyfer newidiadau yn y system
● gwneud cynigion ar gyfer ymchwil i'r system
● adolygu cyfansoddiad a dull gweithredu'r tribiwnlysoedd sydd o dan oruchwyliaeth yr AJTC
● adolygu cyfansoddiad ymchwiliadau statudol a'r ffordd y maent yn gweithredu